6 Hydref 2021

Annwyl Bennaeth Canolfan

Gobeithio bod dechrau'r flwyddyn academaidd newydd yn mynd cystal â phosibl i chi, eich staff a'ch dysgwyr. Rydym yn deall bod llawer o heriau o hyd i ganolfannau wrth dramwyo'r cyngor iechyd cyhoeddus wedi'i ddiweddaru a chefnogi dysgwyr sy'n dal i gael eu heffeithio gan y pandemig. Roedd dyfarnu graddau i ddysgwyr yn haf 2021 yn ymdrech enfawr i ganolfannau a diolchwn i chi am eich gwaith er mwyn cyflawni hyn dan amgylchiadau heriol.

Hoffem eich diweddaru ar y trefniadau ar gyfer arholiadau ac asesiadau yn 2021/2022.

Cyfres gaeaf 2021/22 - TGAU

Gwnaethom ysgrifennu at ysgolion a cholegau ym mis Mai a mis Gorffennaf 2021, yn cadarnhau y byddai cyfres mis Tachwedd ar gyfer TGAU mewn Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith yn mynd yn ei blaen. Gwnaethom hefyd gadarnhau y byddai'r gofynion asesu wedi'u haddasu a roddwyd ar waith gan CBAC yn berthnasol i'r gyfres hon o arholiadau. Mae manylion ar gael ar wefan CBAC. Bydd yr addasiadau hefyd yn berthnasol i unedau TGAU sydd ar gael ym mis Ionawr 2022 (Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg) ac i gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau a gyflwynir ym mis Ionawr 2022.

Haf 2022 - TGAU, UG a Safon Uwch

Fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, yn haf 2022 bydd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn cael eu hasesu trwy arholiadau ac asesiadau di-arholiad lle bo hynny'n berthnasol. Er mwyn cydnabod yr aflonyddwch i addysgu a dysgu dysgwyr sy'n sefyll

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn haf 2022, mae'r gofynion asesu wedi'u haddasu. Mae'r addasiadau hyn wedi'u rhoi ar waith ar gyfer haf 2022 er mwyn cefnogi dysgwyr a gwneud yr arholiadau'n decach ar eu cyfer.

Cyhoeddodd CBAC lyfrynnau addasiadau TGAU a UG a Safon Uwch haf 2022 yn ymdrin â phob pwnc ar eu gwefan ddiogel ym mis Gorffennaf, fel y gallai canolfannau gyrchu'r wybodaeth. Cyhoeddon nhw'r manylion hyn ar eu gwefan gyhoeddus yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 13 Medi - CBAC: addasiadau TGAU, UG ac Uwch. Cyhoeddodd CBAC addasiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau yn gynharach yn nhymor yr haf.

Graddio TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2022

Wrth ddychwelyd at arholiadau, bydd CBAC yn dyfarnu graddau i ddysgwyr yn haf 2022. Rydym eisiau i'r broses raddio fod mor deg â phosibl i ddysgwyr ac adlewyrchu'r aflonyddwch i addysgu a dysgu y maent wedi'i brofi. Rydym wedi trafod barn rhanddeiliaid ac rydym hefyd wedi ystyried y dulliau sy'n cael eu defnyddio gan reoleiddwyr cymwysterau mewn rhannau eraill o'r DU, er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru dan anfantais.

Ar gyfer haf 2022, rydym wedi penderfynu alinio â'r dull a ddefnyddir yn Lloegr er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o gymharu â dysgwyr eraill. Hynny yw, i drin 2022 fel blwyddyn bontio i adlewyrchu ein bod mewn cyfnod adfer yn sgil pandemig a bod tarfu wedi bod ar addysg dysgwyr. Yn 2022, anelwn, felly, at i ganlyniadau adlewyrchu pwynt hanner ffordd yn fras rhwng 2021 a 2019. Yn 2023 rydym yn anelu at ddychwelyd at ganlyniadau sy'n unol â'r rhai mewn blynyddoedd cyn pandemig.

Fel yn haf 2021, mae'n flaenoriaeth bod y graddau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn cefnogi eu cynnydd i gam nesaf eu dysgu a / neu gyflogaeth. Byddwn yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr eraill ledled y DU fel bod y broses raddio yn deg ac yn gyson i ddysgwyr.

Teimlwn mai dyma'r cyfaddawd gorau, yn cydbwyso buddiannau dysgwyr yn 2022, sydd, heb unrhyw fai arnyn nhw wedi cael profiadau addysgu a dysgu wedi'u haflonyddu, ynghyd â thegwch i ddysgwyr yn y gorffennol a'r dyfodol.

Bydd y penderfyniad ar y dull o raddio TGAU, UG a Safon Uwch yn cael effaith ar rai cymwysterau galwedigaethol a ddefnyddir at ddibenion tebyg, gan gynnwys symud ymlaen i astudiaeth bellach. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ystyried y dull a ddefnyddir ar gyfer TGAU a Safon Uwch wrth osod safonau mewn cymwysterau galwedigaethol fel nad yw dysgwyr galwedigaethol dan anfantais o gymharu â dysgwyr sy'n cymryd TGAU a Safon Uwch.

Dull wrth gefn ar gyfer TGAU, UG ac Uwch - haf 2022

Yn haf 2022 bydd dysgwyr yn cael eu hasesu yn y ffordd arferol, drwy arholiadau a/neu asesiadau di-arholiad gydag addasiadau addas. Byddwn yn gweithio gyda CBAC i drafod unrhyw addasiadau pellach y gellid eu cyflwyno os yw'r aflonyddwch yn parhau i effeithio ar ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, os bydd y gyfres arholiadau yn cael ei chanslo, er gwaetha'r camau hyn, yna bydd angen dull wrth gefn.

Wrth gydnabod yr ymdrech sylweddol i weithredu dull amgen y llynedd a llwyddiant y dull hwnnw o ran caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen, byddwn yn seilio'r cynllun wrth gefn ar y dull Gradd a Bennir gan Ganolfan o haf 2021. Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i ganslo'r gyfres arholiadau, gofynnir eto i ganolfannau ddyfarnu graddau dysgwyr ar sail tystiolaeth o gyrhaeddiad ar draws y cymhwyster. Fodd bynnag, rydym am wella rhai agweddau ar y dull gan gynnwys mesurau i osgoi gor-asesu a lleihau'r ddibyniaeth ar hen bapurau cyfan lle mae dysgwyr wedi cael mynediad at gynlluniau marcio hysbys. Rydym yn ymwybodol o bwysau'r asesiadau ychwanegol a weithredwyr y llynedd ar ddysgwyr a chanolfannau ac felly ar y cyfan rydym yn disgwyl i ganolfannau ddefnyddio asesiadau y maent eisoes wedi'u cynllunio fel rhan o'u rhaglenni addysgu a dysgu.

Rydym yn gweithio gyda CBAC i ddiweddaru canllawiau ac rydym yn bwriadu rhyddhau mwy o fanylion ym mis Tachwedd, ond yn y cyfamser dylai canolfannau:

- parhau i gynnal eu hasesiadau arferol a ddefnyddir i lywio barn ar gynnydd dysgwyr ym mhob cwrs. Efallai y bydd yr asesiadau hyn yn rhai mwy sylweddol fel profion diwedd pwnc, asesiadau ymarfer di-arholiad, ffug arholiadau a phrosiectau ymarferol fydd y rhain.
- hysbysu dysgwyr y gellid defnyddio'r asesiadau hyn fel tystiolaeth o gyrhaeddiad, pe bai angen defnyddio'r dull wrth gefn yn 2022. Rhaid iddi fod yn glir i ddysgwyr nad yw hyn yn golygu y gallai'r holl waith ac unrhyw waith y maen nhw wedi ei gwblhau gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth.
- adolygu hysbysiadau preifatrwydd prosesu data i ystyried y posibilrwydd y gellid defnyddio asesiadau canolfan fel tystiolaeth o gyrhaeddiad os gweithredir y trefniadau wrth gefn.

Hoffem ailadrodd y bydd y trefniadau wrth gefn hyn yn cael eu deddfu dim ond os nad yw'n bosibl cynnal arholiadau.

Dull wrth gefn ar gyfer cymwysterau galwedigaethol

Mae addasiadau ar waith ar gyfer asesu cymwysterau galwedigaethol yn 2021/22. Mae'r rhain yn amrywio ar draws y cyrff dyfarnu yn dibynnu ar bwrpas y cymhwyster a sut y cânt eu strwythuro a'u hasesu. Gwiriwch gyda'ch corff dyfarnu am yr

addasiadau sydd ar waith ar gyfer y cymwysterau rydych chi'n eu cynnig. Pan fydd cymwysterau galwedigaethol yn cael eu hasesu trwy arholiad, bydd y rhain yn mynd yn eu blaen fel y cynlluniwyd yn 2021/22. Fel sy'n wir am gymwysterau cyffredinol, pe bai aflonyddwch sylweddol pellach yn arwain at ganslo cyfres arholiadau yn y dyfodol, bydd trefniadau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith. Gellir ailgyflwyno Graddau a Bennir gan Ganolfan (Graddau a Asesir gan Athrawon fel y cyfeirir atynt yn aml mewn cymwysterau galwedigaethol) ar gyfer y cymwysterau hynny a oedd yn gymwys i gael Gradd a Bennir gan Ganolfan/Gradd a Asesir gan Athrawon yn haf 2021. Gallwch ddarllen mwy am y trefniadau wrth gefn ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr yma.

Cyfathrebu
Yn ddiweddar rydym wedi diweddaru ein gwefan er mwyn ceisio gwneud gwybodaeth mor hygyrch â phosibl, yn enwedig i ddysgwyr, a byddwn yn anfon gwybodaeth at ddysgwyr trwy ysgolion yn ystod yr wythnosau nesaf.
Rydym yn gwybod y gallai fod gan rai dysgwyr bryderon ynghylch dychwelyd i arholiadau. Rydym yn cynllunio ystod o gyfathrebu i gefnogi eu dealltwriaeth yn ystod y misoedd nesaf.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr